**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer y Cod Ymarfer a'r canllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (fersiwn ddiwygiedig).

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol). Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

19 Mawrth 2024

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae'r Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) diwygiedig hwn yn nodi'r gofynion a'r canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â hwy pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf'). Mae'n trafod y dyletswyddau llesiant a hollgyffredinol; asesiadau o anghenion y boblogaeth; gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig; hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector; ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu; gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; a chofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill.

1.2. Mae Pennod 2b yn ganllawiau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw iddynt pan fyddant yn llunio trefniadau partneriaeth at ddibenion cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth.

1.3. Mae hon yn fersiwn ddiwygiedig o God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a gyhoeddwyd yn 2015 (ISBN 978-1-4734-5494-1 - cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf (llyw.cymru)). Bydd yn dirymu fersiwn 2015.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae adran 145 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu fwy o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Caiff cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n disgrifio nodau, amcanion a materion eraill. Pan fydd yn arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdod lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.

3.2. Mae adran 169 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, ac o bryd i'w gilydd ddiwygio, canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth a wneir o dan reoliadau o dan adran 166 o'r Ddeddf. Pan fyddant yn arfer swyddogaethau a roddir iddynt o dan neu yn rhinwedd adrannau 166 i 168 o'r Ddeddf, rhaid i'r cyrff a'r unigolion a ganlyn roi sylw i'r canllawiau hyn: awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, tîm neu berson sy'n cyflawni trefniadau partneriaeth yn unol â rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 166(4)(b), a bwrdd partneriaeth a sefydlwyd o dan reoliadau o dan adran 168.

3.3. Mae'r Cod Ymarfer hwn a'r canllawiau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Diben Cod Ymarfer Rhan 2 yw nodi gofynion a chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

4.2. Mae'r Cod yn cael ei ddiwygio fel rhan o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru, yn sgil ymgynghori ar Bapur Gwyn ym mis Ionawr 2021. Nodwyd elfennau'r rhaglen mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 29 Hydref 2021: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf

4.3. Mae'r diwygiadau i God Rhan 2 yn canolbwyntio'n bennaf ar ddau faes polisi:

- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol
- ymgysylltu â dinasyddion, llais a chydgynhyrchu yn y broses o ddylunio a gweithredu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

4.4. Mae'r ddau'n deillio o'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn adran 16 o'r Ddeddf. Mae adran 16(1)(a), (b) ac (c) yn cynnwys dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth. Mae adran 16(1)(c) yn cynnwys dyletswydd i hyrwyddo cynnwys ('ymglymiad' yw'r geiriad yn y Ddeddf) defnyddwyr gwasanaethau (y rheini sy'n cael gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol) yn y broses o ddylunio a gweithredu'r gwasanaethau hynny. Yn fersiwn gyfredol Cod Ymarfer Rhan 2 (fersiwn 2015), trafodir y ddau faes polisi hyn ym Mhennod 4 o dan y pennawd 'Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector'. Un o elfennau allweddol y diwygiadau hyn yw gwahanu'r elfennau hyn yn benodau ar wahân i roi mwy o ffocws iddynt a'u gosod yng nghyd-destun y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

4.5. Bydd fersiwn ddiwygiedig Cod Rhan 2 hefyd yn cynnwys mân newidiadau i Bennod 2 sy'n ymwneud â chynnal asesiadau poblogaeth ac i Bennod 3 sy'n ymwneud â gwasanaethau ataliol. Mae'r rhain yn ystyried newidiadau i'r cyd-destun polisi ers cyhoeddi'r Cod gwreiddiol yn 2015, ac arferion da sydd wedi datblygu ers rhoi'r Ddeddf ar waith.

## 5. **Ymgynghori**

5.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad a barodd 12 wythnos rhwng 22 Mai a 14 Awst 2023 ynghylch elfennau amrywiol y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, gan gynnwys fersiwn ddrafft o'r Cod Ymarfer Rhan 2 diwygiedig.

5.2. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn tueddu i gefnogi'r diwygiadau arfaethedig, yn enwedig y penderfyniad i wahanu'r bennod bresennol am ddyletswydd adran 16 yn ddwy, ac i ganolbwyntio'n fwy penodol ar gydgynhyrchu. Gwnaed llawer o sylwadau am yr heriau o ran rhoi'r Cod ar waith ac o ran yr hyn y bydd ailgydbwyso'r farchnad a chydgynhyrchu yn ei olygu yn ymarferol, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Cod ei hun yn canolbwyntio ar y gofynion a'r canllawiau statudol yn hytrach na phennu arferion da neu drafod materion ehangach sy'n ymwneud ag adnoddau a gweithredu, er bod y rhain yn berthnasol i'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol i roi'r Cod ar waith. Gwnaed rhai newidiadau ers yr ymgynghoriad yng ngoleuni rhai o'r sylwadau manwl a wnaed am y Cod.

5.3. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Opsiynau

6.1. Gwnaethom bennu tri opsiwn o ran Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol):

- Opsiwn 1 – cadw'r Cod Rhan 2 cyfredol (2015).
- Opsiwn 2 – gwneud mân ddiwygiadau i God Rhan 2 i ystyried y cyd-destun polisi sy'n newid a'r arferion da sy'n datblygu (**yr opsiwn a ffefrir**).
- Opsiwn 3 – diwygio Cod Rhan 2 yn helaeth.

6.2. Roedd y meysydd polisi a drafodir gan God Rhan 2 yn rhan o gylch gorchwyl dau o'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i gefnogi'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol ac Ymgysylltu a Llais. Defnyddiwyd y ddau grŵp fel fforymau i brofi'r graddau yr oedd angen diweddaru'r gofynion a'r canllawiau a geir yn y Cod Ymarfer cyfredol. Gwnaeth hyn ein cynorthwyo i benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir.

## 7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Cadw'r Cod Rhan 2 cyfredol

7.1. **Mantais** allweddol cadw'r Cod cyfredol (2015) yw ei fod yn god sydd wedi ennill ei blwyf ac wedi cynorthwyo awdurdodau lleol i roi ar waith eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol cyffredinol o dan Ran 2 o'r Ddeddf ers iddi ddod i rym ar 6 Ebrill 2016. Nid oes neb wedi galw am ddiwygio'r Cod ac, er bod y cyd-destun polisi wedi dyddio ychydig mewn mannau, mae egwyddorion a gofynion y Cod (fel y gwnaeth ymgynghoriad 2023 ei gadarnhau) yn cael eu derbyn a'u deall yn eang. Ceir cyfle hefyd i ddyroddi canllawiau atodol anstatudol i gefnogi'r camau i'w roi ar waith ac i ystyried y cyd-destun polisi sy'n newid, fel y rheini a ddyroddwyd i gynorthwyo awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i lunio'r asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2017 ac yn 2022.

7.2. Nid oes unrhyw **gostau** yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

<u>Opsiwn 2: Gwneud mân ddiwygiadau</u>

7.3. **Manteision** gwneud mân ddiwygiadau i God Rhan 2 yw y byddai'n caniatáu inni ddiweddaru testun 2015 i ystyried yr agenda bolisi sy'n datblygu o ran ailgydbwyso, yn ogystal â chynnwys arferion da sydd wedi ennill eu plwyf ac wedi'u mabwysiadu a'u mireinio'n lleol ers rhoi'r Ddeddf ar waith yn 2016. Byddai hefyd yn caniatáu inni newid ffocws rhai o'r negeseuon, y gofynion a'r canllawiau allweddol yng ngoleuni datblygiadau polisi diweddar a blaenoriaethau sy'n newid. Yn benodol, byddai'n gyfle inni wneud y newidiadau a ganlyn:

- **Newid ffocws y Bennod 4 bresennol (Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) ynghylch modelau cyflenwi**

  Yn fersiwn gyfredol Cod Rhan 2, mae Pennod 4 yn trafod pob agwedd ar ddyletswydd adran 16 – h.y. modelau cyflenwi a chynnwys ('ymglymiad' yw'r geiriad yn y Ddeddf) defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau. O ddiwygio'r cod, byddai modd inni wahanu'r deunydd hwn yn ddwy bennod newydd er mwyn i'r Bennod 4 newydd ganolbwyntio yn unig ar hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, yng nghyd-destun ehangach ein polisi ar ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.

- **Egluro ystyr gwerth cymdeithasol**

  Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cryn drafodaeth â rhanddeiliaid am ystyr ac effaith 'gwerth cymdeithasol' ym maes gofal cymdeithasol. Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian grant i Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru yn flaenorol) i gefnogi camau i drawsnewid gwasanaethau yn y sector gofal cymdeithasol drwy hybu datblygiad modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r

gwaith hwn wedi canolbwyntio'n benodol ar fodelau cyflenwi adran 16[1]. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol a'r Grŵp Technegol sy'n helpu i lunio'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth hefyd wedi ystyried gwerth cymdeithasol. Drwy ddiwygio Cod Rhan 2 (yn enwedig Pennod 4), byddai modd inni roi sylw i rywfaint o'r hyn yr ydym yn dod i'w ddeall o ran ystyr gwerth cymdeithasol yn y sector gofal cymdeithasol. Mae paragraffau 227-230 o'r Cod diwygiedig yn rhoi sylw i hyn.

- **Cefnogi gwaith i adfywio'r 'fforymau gwerth cymdeithasol' rhanbarthol**

  Yn unol â Chod Rhan 2 2015, roedd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol sefydlu 'fforymau gwerth cymdeithasol' rhanbarthol. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r fforymau hyn ddwyn ynghyd fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol drwy'r mathau hyn o sefydliadau neu fodelau. Fodd bynnag, gan fod gwerth cymdeithasol yn derm eang, a bod pob darparwr gofal cymdeithasol, gan gynnwys darparwyr yn y sector preifat, yn gallu gwireddu gwerth cymdeithasol (ac yn wir, dylent wneud hynny), mae'r awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â'r fforymau hyn mewn gwahanol ffyrdd ledled Cymru, gyda rhai ohonynt yn dehongli'r term 'darparwyr gwerth cymdeithasol' yn ehangach nag eraill. Mae rhai fforymau wedi bod yn fwy llwyddiannus na'i gilydd hefyd. Fel rhan o'i waith a ariennir ag arian grant, mae Cwmpas wedi bod yn cydweithio â'r partneriaethau rhanbarthol i gefnogi ac adfywio'r fforymau, ac i lunio pecyn cymorth newydd. Drwy ddiwygio Cod Rhan 2, byddai modd inni ailddrafftio'r adran sy'n ymwneud â'r fforymau hyn i egluro eu rôl a'u swyddogaeth ac i newid eu henw er mwyn i'r berthynas â'r ddyletswydd i hyrwyddo a geir yn adran 16 fod yn gliriach. Mae'r Cod diwygiedig yn cyfeirio atynt fel 'fforymau adran 16'.

- **Creu pennod newydd am ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu**

  Ar hyn o bryd, mae'r negeseuon, y gofynion a'r canllawiau allweddol o ran llais dinasyddion a chydgynhyrchu i'w gweld ym Mhennod 4 o God Rhan 2 sydd hefyd yn trin a thrafod mentrau cymdeithasol a modelau busnes eraill. Drwy ddiwygio'r Cod, byddai modd inni greu pennod newydd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar gynnwys ('ymglymiad' yw'r geiriad yn y Ddeddf) defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau, gyda phwyslais ar ddefnyddio dull cydgynhyrchu lle y bo modd. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod mwy o gysylltiad rhwng y Cod a'r negeseuon am gydgynhyrchu a geir yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth sydd hefyd yn cael eu diwygio fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso.

[1] Gweler https://cy.cwmpas.coop/social-value-in-social-care/

- **Cyfeirio at adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad**

  Cyflwynwyd y gofyniad newydd ar awdurdodau lleol i lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn 2021, pan gafodd adran 144B ei mewnosod yn y Ddeddf drwy gyfrwng adran 56 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r gofynion a'r canllawiau o ran yr adroddiadau hyn i'w cael mewn cod ymarfer a chanllawiau statudol ar wahân a ddyroddwyd ym mis Mawrth 2021[2]. Mae'r rhain yn egluro'r berthynas rhwng yr adroddiadau rhanbarthol ar sefydlogrwydd y farchnad, yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a'r cynlluniau ardal ar y cyd, fel rhan o'r cylch cynllunio a chomisiynu cyffredinol. Drwy ddiwygio Cod Rhan 2, gallwn hefyd greu'r cysylltiadau hyn ym Mhennod 2 sy'n trafod asesiadau poblogaeth.

- **Rhoi sylw i'r arferion sy'n datblygu o ran asesiadau o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys ailddiffinio'r 'themâu craidd'**

  Mae Pennod 2 o God Rhan 2 yn cynnwys y gofynion o ran asesiadau o anghenion y boblogaeth. Mae Pennod 2A yn gymwys i awdurdodau lleol o ran eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac mae Pennod 2B yn ganllawiau statudol sy'n gymwys i awdurdodau lleol ac i Fyrddau Iechyd Lleol. Cynhelir yr asesiadau hyn bob pum mlynedd ac, yn 2016 a 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol anstatudol i gynorthwyo'r partneriaethau rhanbarthol i gynnal eu hasesiadau cyntaf (a gyhoeddwyd yn 2017) a'u hail asesiadau (a gyhoeddwyd yn 2022). Yn y canllawiau atodol hyn, roedd modd inni osod yr asesiadau hyn yn eu cyd-destun, yn enwedig o ran strategaethau a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhoi sylw i arferion da (ac, yn 2021, i'r gwersi a ddysgwyd). Drwy ddiwygio Cod Rhan 2, byddai modd inni newid Pennod 2 yng ngoleuni'r profiad hwn. Er enghraifft, byddai modd inni roi'r term mwy cywir 'grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth' yn hytrach na'r term 'themâu polisi craidd'; gwahanu anableddau dysgu a niwrowahaniaeth ('awtistiaeth' yn flaenorol); cynnwys cyfeiriad penodol at bobl â dementia, ac ychwanegu 'pobl sy'n profi digartrefedd'. Yn ehangach, byddai modd inni awgrymu y gallai'r awdurdodau lleol / Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod am ystyried cyfuno'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ag asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i greu un adroddiad asesu rhanbarthol (fel y gwnaeth llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad alw amdano), a chynnwys cyfeiriad at gynllunio ar draws clystyrau.

- **Diweddaru'r bennod am wasanaethau ataliol**

  Drwy ddiwygio Cod Rhan 2, byddai hefyd modd inni ddiweddaru Pennod 3 am wasanaethau ataliol i roi sylw ehangach i'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig. Byddai modd

---

[2] https://www.llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer-html

cyfeirio at y modelau gofal newydd sy’n cael eu llunio o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (yn enwedig y model ‘Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol’), ac at y fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

7.4. Nid oes unrhyw **gostau** newydd yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Ni fyddai’r awdurdodau lleol yn ysgwyddo unrhyw feichiau newydd, ac ni fyddai unrhyw gostau gweithredu ychwanegol ynghlwm wrth y newidiadau oherwydd nid ydynt yn ddigon mawr. Nid ydym yn awgrymu nad yw’r awdurdodau lleol yn ysgwyddo unrhyw gostau er mwyn ateb gofynion y Ddeddf, gan gynnwys ateb gofynion Cod Rhan 2: fel y gwnaeth ymatebion yr awdurdodau lleol a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i’r ymgynghoriad ei ddangos yn glir, ceir problemau sylweddol o ran adnoddau ar draws y maes gofal cymdeithasol o hyd, a bydd angen adnoddau ychwanegol yn nhermau amser, pobl ac arian os yw’r awdurdodau lleol am barhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf. Serch hynny, ni ddylai’r mân ddiwygiadau hyn i God Rhan 2 ychwanegu at y pwysau parhaus hwn ar adnoddau, na’i ddwysáu.

Opsiwn 3: Diwygio Cod Rhan 2 yn helaeth / ei ailysgrifennu’n llwyr

7.5. **Mantais** bosibl diwygio Cod Rhan 2 yn helaeth yw y gallai ddarparu cod y mae ei ofynion yn rhoi ystyriaeth fwy cynhwysfawr i brofiad yr awdurdodau lleol o roi’r Ddeddf ar waith. Mae hyn, fodd bynnag, yn rhagdybio bod y Cod, na wnaeth ond dod i rym ym mis Ebrill 2016, eisoes wedi dyddio’n helaeth, neu nad yw rywsut yn addas i’r diben mwyach. Ar ôl ystyried y cwestiwn hwn, daeth Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Rhaglen Ailgydbwyso i’r casgliad bod gofynion a chanllawiau’r Cod yn dal i fod yn briodol, yn ddefnyddiol ac yn berthnasol iawn ar y cyfan, hyd yn oed mewn meysydd y byddai’n fuddiol eu diweddaru rywfaint, fel cydgynhyrchu a modelau cyflenwi adran 16. Mae’n ymddangos bod yr awdurdodau lleol yn gyfarwydd ar y cyfan â gofynion y Cod, ac nad oes unrhyw broblemau wedi dod i’r amlwg o ran ei ddehongli. Cafwyd yr un neges yn yr ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus 2023, ac roeddent ar y cyfan yn cefnogi’r mân ddiwygiadau y gwnaethom ymgymryd â hwy yn y pen draw.

7.6. Ni chafodd y **costau** posibl i’r awdurdodau lleol o ran ymgyfarwyddo â Chod Rhan 2 wedi’i ddiwygio’n llwyr, a’i roi ar waith, eu hystyried yn fanwl, oherwydd daeth i’r amlwg mai dim ond mân ddiwygiadau yr oedd angen eu gwneud i sicrhau bod y Cod cyfredol yn gyfoes.

7.7. Felly, opsiwn 2 (mân ddiwygiadau) yw’r opsiwn a ffefrir gennym.

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

8.1. Ceir sawl ffynhonnell wybodaeth a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw’r diwygiadau a wnaed i God Rhan 2 yn cynorthwyo’r awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf.

8.2. O ran **y ddyletswydd i hyrwyddo** a geir yn **adran 16** (Pennod 4), mae cymuned ymarfer yn cael ei sefydlu ar gyfer y fforymau rhanbarthol (hwn fydd un o allbynnau gwaith Cwmpas a ariennir ag arian grant). Rhaid i’r awdurdodau

lleol hefyd lunio adroddiad rhanbarthol am waith eu fforymau bob tair blynedd. O dan y diwygiadau y cynigir eu gwneud i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, bydd yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol wybodaeth am y ffordd y mae'r cyrff partneriaeth yn hyrwyddo sefydliadau a dulliau adran 16, a'r ffordd y mae'r Bwrdd yn helpu i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn ymwneud â'i waith ac yn gallu siapio'r gwaith hwnnw.

8.3. Bydd yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a fydd yn cael eu llunio gan y partneriaethau rhanbarthol bob pum mlynedd yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol, gan gynnwys rôl modelau a dulliau adran 16 o ran darparu gofal a chymorth. Yn ehangach, bydd y swyddfa newydd, y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth, yn datblygu dull o gael trosolwg o'r farchnad ar draws pob sector.

8.3. O ran **cydgynhyrchu** (Pennod 5), bydd yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol wybodaeth am y ffordd y maent wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr di-dâl, gan gynnwys plant a phobl ifanc) yn eu gwaith, y ffordd y mae'r bartneriaeth ranbarthol wedi hyrwyddo cydgynhyrchu, a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud o ran canlyniadau llesiant dinasyddion. Ar lefel awdurdod lleol, dylid cynnwys gwybodaeth am ddulliau ymgysylltu a chydgynhyrchu yn adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau am yr asesiadau o anghenion y boblogaeth, yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r cynlluniau ardal ar y cyd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd yr aethpwyd ati i ymgysylltu â dinasyddion wrth lunio'r asesiadau a'r cynlluniau hynny.

8.4. Gan weithio drwy'r partneriaethau rhanbarthol, bydd yr awdurdodau lleol yn cynnal adolygiad canol cyfnod o'u **hasesiadau o anghenion y boblogaeth** yn 2024-5, a bydd hyn yn helpu i osod sylfaen ar gyfer unrhyw ganllawiau atodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi cyn y cylch asesu nesaf yn 2027. Bydd y canllawiau atodol yn gyfle i adolygu ac, os oes angen, i ategu'r canllawiau cyfredol a geir ym Mhennod 2 o'r Cod.

8.5. Cafodd cymunedau ymarfer eu sefydlu i helpu i ddatblygu'r chwe model gofal integredig o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd cymuned ymarfer y model 'gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol' yn helpu i asesu'r cynnydd a wnaed o ran gofynion Pennod 3 sy'n ymwneud â **gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig**.

8.6. Yn unol â'r arferion da sydd wedi ennill eu plwyf o ran is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r ffordd y mae'r Cod Rhan 2 diwygiedig yn cael ei roi ar waith ymhen tair blynedd (erbyn mis Mehefin 2027).